COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGWM  25.01.23

.

PRESENNOL – Carwyn Edwards (Cadeirydd) ,Gwyn Davies, Sioned Jones, Alun Jones, Glennydd Evans, Gwynfryn Jones.  Cyng. Gwennol Ellis, Rhian Ellis (Clerc).

Cydymdeilodd y Cadeirydd gyda Glennydd Evans, wedi colli ei fam ynghyfraith.

Croesawyd Eirian P Jones o'r Loteri Genedlaethol I siarad gyda aelodau'r cyngor ynglyn a'r grantiau sydd ar gael. Dywedodd bod y grantiau ar gael drwy'r amser a bod angen ymgynghori gyda'r gymuned cyn ein bod yn rhoi cais I fewn.

1. YMDDIHEURIADAU –  Llyr Jones, Awel Hughes.

2. DATGAN BUDDIANNAU – Dim

3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF – Cynigwyd yn gywir Gwynfryn ac eilwyd gan Sioned.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION –

Cwt Hers – Y clerc yn aros am bris gan Gethin Pyrs am bris I'r drws.

Wedi derbyn pris gan Ian ynglyn a chodi wal y fynwent o £600. Penderfynwyd ein bod yn derbyn y pris a gofyn I Ian gario ymlaen.

5. CYLLIDEB  - Yn y Banc 29.11.22        £19,387.54

Gwariant hyd yma Nant Fach - £2,564.95

Trafodwyd y precept a penderfynwyd codi 5% am eleni gan fod costau pob dim wedi codi.

6. TALIADAU -  Cynigwyd talu yr isod gan Glennydd  ac eilwyd gan Gwyn a phawb yn gytun.

| | | |
|---|---|---|
| 1. I N Ferguson | s137 | £66.79 |
| 2. Rhydian Morris | s137 | £420.00 |

7. NEUADD FACH -  .Dim diweddariad

8.CAEAU CHWARAE -

Dinmael -Dim diweddariad

Llangwm – Dim yn digwydd yn y parc.

Yn dilyn trafodaeth paswyd bod angen cael cyfarfod gyda aelodau o Bwyllgor y Ganolfan er mwyn I bawb ddeallt beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd. Y clerc I siarad gyda ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd I drefnu.

9.  CYNLLUNIO  – Estyniad I Bwthyn Maesmor – Nodi pryderon ar lafar ond neb wedi gwthwynebu yn swyddogol. (Ni chymerodd Cyng Gwennol Ellis ran yn y drafodaeth yma.)        .

10. GOHEBIAETH - Llythyr gan Helen Goddard Pennaeth Adran Diwyllliant, Llyfgelloedd a Gwyboaeth yn gofyn am £750 tuag at gostau rhedeg y llyfrgell yn 2023/24. Penderfynwyd cyfrannu y £750 eleni.

11. UNRHYW FATER ARALL –

1. Nodwyd bod Pont y Glyn yn edrych yn dda ar ol I'r Cyngor ddechrau gweithio arni.

2. Ffordd heibio i Hendre Arddwyfan yn dechrau gollwng. Angen gwaith wedi ei wneud wrth y 'cattle grid ar giat'.

3. Cael pris gan Gwilym Prys I dacluso y coed yn y fynwent.

4. Dywedodd y Cyng Gwennol Ellis os oes rhywun yn yr ardal angen cyfraniad o'r Banc Bwyd I gysylltu gyda hi.

12. EITEMAU I'R PWYLLGOR NESA'.

Ebost Mr Levens, Eglwys St.Jerome

DYDDIAD CYFARFOD NESA.

Mawrth 22ain 2023 am 8 o'r gloch